Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

Y.G. Llangynfelyn
Taliesin
Machynlleth
SY20 8JG

Rhif yr Ysgol: 6672307

Dyddiad yr Arolygiad: 12/06/06

gan

Owen Glyn Roberts
78806

Dyddiad Cyhoeddi: 14 Awst, 2006

Dan rif contract Estyn: 1120805

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

* ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
* ysgolion cynradd;
* ysgolion uwchradd;
* ysgolion arbennig;
* unedau cyfeirio disgyblion;
* ysgolion annibynnol;
* addysg bellach;
* dysgu oedolion yn y gymuned;
* gwasanaethau cymorth ieuenctid;
* AALlau;
* addysg a hyfforddiant athrawon;
* dysgu yn y gwaith;
* cwmnïau gyrfaoedd; ac
* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2006 Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Y.G. Llangynfelyn fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Y.G. Llangynfelyn rhwng 12/06/06 a 14/06/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan Owen Glyn Roberts. Comisiwynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad byr.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 2

Argymhellion 7

Safonau 8

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 8

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 10

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 10

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 12

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 15

Arweinyddiaeth a rheolaeth 17

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 17

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 19

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 21

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 22

Atodiadau 23

1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 23
2 Data a dangosyddion ysgol 24
3 Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol 25
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad 26
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 27

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Ysgol Gynradd sirol ar gyrion pentref Taliesin, Sir Ceredigion, yw Ysgol Llangynfelyn. Mae'n gwasanaethu ardal eang gan dderbyn disgyblion o bentrefi cyfagos i fyny hyd at Eglwys Fach ar ochr ddeheuol Dyffryn Dyfi, ardal wledig amaethyddol.

2. Disgrifir y dalgylch fel un heb fod yn ffyniannus na dan anfantais economaidd a'r disgyblion heb fod yn freintiedig na'n ddifreintiedig. Mae 6% o'r disgyblion â hawl i ginio am ddim, sy'n is na'r lefel cenedlaethol a sirol.

3. Derbynia'r ysgol blant yn llawn amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pedwerydd penblwydd. Yn ystod yr arolygiad roedd 52 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys tri phlentyn oedran meithrin.

4. Prif iaith cartref yr holl ddisgyblion yw'r Saesneg ac mae'r ysgol yn amcangyfrif fod oddeutu 93% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg i safon sy'n cyfateb i iaith gyntaf erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Mae 40% o'r disgyblion yn derbyn cymorth ychwanegol o dan y drefn anghenion addysgol arbennig, gyda 4% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r nifer yma'n sylweddol uwch na'r cyfertaledd cenedlaethol.

6. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Haf 2000. Penodwyd y Pennaeth presennol yn Medi 2004.

7. Y tro hwn derbyniodd yr ysgol arolygiad byr.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8. Prif flaenoriaethau'r ysgol a nodir yn ei chynllun datblygu ysgol ar gyfer 2006-2007 yw:
   - ffurfioli'r broses o osod targedau unigol a rhoddi rhan weithredol i'r disgyblion yn y broses o hunan werthuso
   - adolygu a monitro trefn asesu'r ysgol
   - datblygu ymhellach y drefn o gyfathrebu gwybodaeth i'r rhieni
   - monitro meysydd cwricwlaidd yn unol â'r amserlen osodwyd
   - sicrhau hyfforddiant cymorth cyntaf a dealltwriaeth ymysg staff o weithdrefnau amddiffyn plant
   - adolygu amserlen cynnal a chadw'r adeilad ynghŷd â dodrefnu.

9. Targedau meintiol yr ysgol ar gyfer 2006 yw:

	CA2: Cyfartaledd Lefelau
Cymraeg	3.86
Saesneg	4.14
Mathemateg	4.14
Gwyddoniaeth	4.29

Crynodeb

10. Mae Ysgol Llangynfelyn yn ysgol gartrefol a hapus ble derbynia'r disgyblion gynhaliaeth a chefnogaeth gynhwysfawr waeth be fo'u cefndir na gallu. Mae ymdrechion yr ysgol i sicrhau dwyieithrwydd ei disgyblion ac i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang, yn rhagoriaeth amlwg.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		**Gradd arolygu**
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3	Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4	Pa mor dda yw'r gofal,y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6	Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7	Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

11. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd gradd is i'r ddau gwestiwn ble bu gwahaniaeth barn.

Safonau

12. Mae'r disgyblion, gan gynnwys Plant Dan 5 Oed, yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu. Mae'r mwyafrif helaeth yn cyrraedd tuag at y targedau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer.

13. Mae safonau a chynnydd y disgyblion a'r Plant Dan 5 Oed ym medrau llafaredd a darllen yn y Saesneg, medrau dwyieithog a chreadigol yn rhagorol. Maent yn dda mewn mathemateg, technoleg gwybodaeth a llafaredd Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu a darllen Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 wedi eu datblygu'n ddigonol ac yn fwy penodol, gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn y Gymraeg.

14. Mae cynnydd wedi bod yng nghanlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2005, roedd canran llwyddiant o100% ym mhob maes a phob disgybl yn cyrraedd y lefel briodol i'w oed o gymharu â chanlyniadau is na rhai'r sir a chenedlaethol yn 2003 a 2004.

15. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch na rhai'r sir a chenedlaethol dros gyfnod o flynyddoedd ag eithro yn y Gymraeg yn 2005 pan gafodd hwyrddyfodiaid ddylanwad ar y canrannau llwyddiant. Er hyn mae canlyniadau 2005 yn y chwartel uchaf mewn Saesneg a mathemateg ac yn y chwartel isaf mewn Cymraeg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg o safbwynt y nifer disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim.

16. Mae gallu'r disgyblion trwy'r ysgol i weithio gyda dyfalbarhad ar dasgau yn annibynnol yn rhagorol. Nid ydynt, fodd bynnag, wedi datblygu'n ddigonol y medrau sy'n gysylltiedig â chydweithio'n effeithiol ag eraill.

17. Gydag ychydig eithriadau mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymagweddu'n briodol tuag at eu cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o faterion cyfle cyfartal ac o wahanol gredoau a diwylliannau mewn cymdeithas ac yn fyd eang.

18. Mae safonau presenoldeb yn foddhaol gyda chanran ychydig yn is na 94% dros y tri thymor cyn yr arolygiad. Daw'r holl ddisgyblion i'r ysgol yn brydlon.

19. Gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Cyfrannant yn rheolaidd at achosion da, ymatebant yn briodol o fewn sesiynau addoli-ar-y-cyd a chyfrannant tuag at weithgareddau yn y gymuned.

20. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o rai agweddau o fyd gwaith ond nid ydynt ar hyn o bryd wedi meithrin yn ddigonol y medrau sy'n gysylltiedig â menter. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o elfennau perthnasol i gynaliadwyedd yn un o ragoriaethau'r ysgol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

21. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
14%	79%	7%	0%	0%

22. Mae ansawdd yr addysgu yn well na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 2007 o 95% o wersi yn radd 3 neu well a 65% yn radd 2 neu well.

23. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys cyflwyniadau bywiog, defnydd o amrywiol strategaethau a thechnegau i gynnal diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion, meithrin medrau cydweithio a datblygu medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn fwriadus.

24. Mae nodweddion da'r addysgu'n cynnwys cynllunio trylwyr a gosod tasgau addas, holi treiddgar, defnydd effeithiol o glôd a chanmoliaeth ac o adnoddau a chynnal perthynas dda â'r disgyblion.

25. Yn y nifer fechan o wersi lle mae diffygion yn yr addysgu, nid oes rheolaeth digon cadarn ar y disgyblion, nid yw'r disgwyliadau'n ddigon uchel a'r tasgau a roddir iddynt heb fod yn ddigon ymestynnol a heriol.

Asesu, cofnodi ac adrodd

26. Mae ansawdd yr asesu a'r cofnodi'n dda yn y Blynyddoedd Cynnar ac ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig. Mae nodweddion da'n gorbwyso rhai diffygion yn ansawdd asesu a chofnodi cynnydd o fewn cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

27. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 mae'r ysgol yn asesu cynnydd y disgyblion yn y pynciau craidd ond nid yw'r drefn o gofnodi asesiadau o fewn y pynciau sylfaen wedi'i ffurfioli'n ddigonol ac nid yw ansawdd marcio gwaith disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol.

28. Mae'r ysgol yn gwahodd y rhieni i mewn i drafod cynnydd ac i weld gwaith eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol.

Profiadau'r disgyblion

29. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys. Mae'n ymateb yn dda i anghenion dysgu'r holl ddisgyblion ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyfreithiol. Cynigia'r ysgol brofiadau ysgogol a chyfoethog sydd wedi'u trefnu'n rhagorol ar gyfer Plant Dan 5 Oed.

30. Mae'r ddarpariaeth yn gynhwysol a chymdeithasol ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bob disgybl ac mae'n nodwedd rhagorol.

31. Mae amrediad da o weithgareddau allgyrsiol, ymweliadau addysgol a chyswllt ag ysgolion eraill yn cyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd. Cyfranna'r rhain yn dda tuag at gynnydd addysgol y disgyblion ac at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

32. Mae'r cynllunio bwriadus a'r modd sensitif y mae'r ysgol yn hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion yn nodwedd ragorol.

33. Mae ansawdd darpariaeth y Cwricwlwm Cymreig yn dda.

34. Mae darpariaeth gwricwlaidd yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol.

35. Cefnoga'r rhieni waith ac ymdrechion yr ysgol a gwerthfawrogant y polisi 'drws agored' sy'n bodoli o fewn yr ysgol. Mae'r Gymdeithas Rhieni/Athrawon yn weithgar ac yn gyfrifol am godi arian ar gyfer pryniant adnoddau ychwanegol. Daw rhai o'r rhieni i'r ysgol i gynorthwyo ac i rannu arbenigedd yn rheolaidd mewn meysydd megis celf ac addysg gorfforol.

36. Sefydlodd yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gyda'r rhieni. Yn ddiweddar sefydlwyd trefn o ddarparu gwybodaeth i'r rhieni am themau dysgu y dosbarthiadau ynghŷd â thargedau unigol eu plant. Mae nifer arwyddocaol o rieni yn mynegi eu dymuniad i dderbyn gwybodaeth ehangach am yr hyn sydd yn cael ei addysgu ac am gyflawniad eu plant.

37. Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned a rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgolion uwchradd lleol, yn dda.

38. Mae'r ysgol wedi defnyddio cysylltiadau gyda byd busnes yn dda ond nid yw medrau menter y disgyblion wedi datblygu'n llawn hyd yma.

39. Mae'r modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol yn gweithredu camau ail gylchu yn ei bywyd bob dydd ac wedi cymryd rhan mewn prosiectau penodol ynglŷn ac arbed ynni a lleihau gwastraff.

40. Mae gweithrediad y Cyngor Ysgol ('Criw Cynfelyn'), yn fodd effeithiol o ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o brosesau democrataidd ac mae nifer o awgrymiadau'r Cyngor wedi'u gwireddu.

41. Mae'r ddarpariaeth addysgol yn gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod y disgyblion yn meddu ar y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol ar gyfer dysgu gydol oes.

Cymorth a chyfarwyddyd

42. Un o ragoriaethau amlwg yr ysgol yw'r gynhaliaeth a'r gefnogaeth gynhwysfawr a rydd i'w disgyblion, waeth be fo'u cefndir na'u gallu. Mae'r ysgol yn cynnig awyrgylch gartrefol a hapus ac mae'r holl staff yn ofalgar iawn o'r disgyblion dan eu gofal. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn rhagorol.

43. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro prydlondeb, presenoldeb ac ymddygiad.

44. Mabwysiadodd y llywodraethwyr ystod da o bolisiau iechyd a diogelwch perthnasol ac mae gan reolwyr yr ysgol drefniadau effeithiol iawn i sicrhau diogelwch a lles personol y disgyblion yn eu gofal.

45. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Côd Ymarfer.

46. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad yw ymddygiad gormesol yn amharu ar yr addysgu a lles disgyblion yn gyffredinol.

47. Anodd fyddai sicrhau mynediad i'r safle mewn cadair olwyn ond pe bai angen byddai'r ysgol yn cyd drafod a chynllunio â'r awdurdod addysg lleol i wneud addasiadau priodol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

48. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r un gwerthoedd ac amcanion ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol.

49. Rhydd y pennaeth arweiniad clir o ran gweithrediad dydd i ddydd a datblygiadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm er llwyddiant yr ysgol yn ei gwaith.

50. Mae'r modd y mae holl bolisïau'r ysgol, ynghŷd â'i harferion dydd i ddydd, yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb gan gynnwys yr athrawon, y staff cynhaliol a'r disgyblion, yn nodwedd rhagorol.

51. Mae nodweddion rhagorol i strwythur yr adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchodd yr ysgol cyn yr arolygiad. Mae trefniadau hunan-arfarnu'r ysgol yn tynnu ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw rôl y cydlynwyr hyd yma wedi datblygu'n ddigonol i'w galluogi i arfarnu ansawdd yr addysgu a safonau gwaith y disgyblion.

52. Sefydlodd yr ysgol drefn effeithiol ar gyfer rheoli a gwella perfformiad staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth addysgol a safonau cyflawniad disgyblion.

53. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda, yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac mae ganddynt adnabyddiaeth dda o flaenoriaethau'r ysgol. Mabwysiadwyd ystod dda o bolisïau perthnasol ond nid oes cofnod o ddyddiad eu mabwysiadu na rhaglen i'w hadolygu.

54. Mae'r cynnydd a wnaeth yr ysgol wrth weithredu ar y materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad 2000, yn dda, ond mae angen sylw pellach i weithredu dulliau arfarnu safonau pynciol er mwyn cynnal a gwella'r safonau.

55. Mae'r cyflenwad staff yn dda a chymwysterau athrawon yn addas ar gyfer addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm ac mae'r cymhorthydd yn cyfrannu'n dda i'r gynhaliaeth a gaiff y disgyblion.

56. Mae'r cyflenwad ac ansawdd adnoddau'n dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau hyn wrth gyflwyno gwaith.

57. Cydymffurfia'r ysgol â'r gofyn statudol i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu, er ei bod eto i wirio effaith y trefniadau newydd ar godi safonau.

58. Mae'r adeiladau'n ddigon mawr ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgol ac mae'r caban ar gyfer addysgu'r Blynyddoedd Cynnar wedi rhyddhau'r neuadd at ddefnydd arall priodol. Cedwir yr ysgol yn lân iawn a thaclus oddi mewn ac oddi allan. Fodd bynnag mae elfen o risg iechyd a diogelwch ynghlwm â'r grisiau i'r safle ynghŷd â'r defnydd o'r cae chwarae cyfagos.

59. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cyfeirio adnoddau ariannol yn unol â'r blaenoriaethau o fewn y cynllun datblygu ysgol. Maent yn cynllunio'r gwariant yn ofalus a defnyddio'r arian wrth gefn tuag at gynnal y lefel staffio presennol. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda ac mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer datblygu gallu'r disgyblion i gofnodi'n estynedig yn y Gymraeg ar draws y cwricwlwm;

A2 adolygu a diweddaru trefn asesu'r ysgol gan roddi sylw arbennig i'r meysydd sylfaen;

A3 ddatblygu ymhellach rôl y cydgysylltwyr i gynnwys arfarnu'r addysgu a chyflawniad disgyblion;

A4 roi sylw i'r materion iechyd a diogelwch y cyfeiriwyd atynt yn ystod yr arolygiad.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

60. Nid yw barn y tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn Gradd 1 a roddodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Nid oes rhagoriaeth yn y safonau a'r medrau ar draws y cwricwlwm yn arbennig yng ngallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i gofnod'n estynedig yn y Gymraeg.

Llwyddiant y disgyblion o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig

61. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar Gyfer Dysgu Plant.

62. Gwna'r plant dan bump oed gynnydd da ar draws ystod y medrau allweddol mewn llythrennedd, rhifedd a'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

63. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 mae'r medrau llythrennedd ar y cyfan yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion yn trafod yn hyderus yn y ddwy iaith ac yn darllen ac ysgrifennu'n dda yn y Saesneg mewn nifer o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y Gymraeg, wedi datblygu'n ddigonol, yn arbennig medrau'r disgyblion hynaf i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae cynnydd y disgyblion mewn medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda.

64. Mae cyflawniad y disgyblion ar draws yr ysgol mewn medrau dwyieithog a chreadigol yn rhagorol. Er fod y disgyblion yn dod o gartrefi ble nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf, llwyddant i gyfathrebu'n rhagorol ar lafar yn y ddwy iaith o oed cynnar iawn. Mae hyn yn rhagoriaeth amlwg iawn o fewn yr ysgol. Gwna'r disgyblion gynnydd da hefyd yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig. Mae cyflawniad y disgyblion o fewn celf yn rhagoriaeth a gwelwyd enghreifftiau o waith celf a dylunio a thechnoleg o safon uchel.

65. Mae cynnydd wedi bod yng nghanlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 dros y tair blynedd ddiwethaf gyda chanlyniad o 100% ym mhob maes yn 2005 i'w gymharu â chanlyniadau is na'r sir a Cymru gyfan yn 2003 a 2004.

66. Yng nghyfnod Allweddol 2, mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch na'r sir a chenedlaethol dros gyfnod o flynyddoedd ag eithro yn y Gymraeg yn 2005 pan gafodd hwyrddyfodiaid ddylanwad ar y canrannau llwyddiant. Er hyn mae canlyniadau 2005 yn y chwartel uchaf mewn Saesneg a mathemateg ac yn y chwartel isaf mewn Cymraeg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg o safbwynt y nifer disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim.

67. Nid oes amrywiad amlwg rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched.

Cynnydd y disgyblion wrth ddysgu

68. Ar y cyfan gwna'r disgyblion gynnydd da wrth ddysgu ac maent yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

69. Mae gallu'r disgyblion trwy'r ysgol i weithio gyda dyfalbarhad ar dasgau yn annibynnol yn rhagorol. Nid ydynt wedi datblygu'n ddigonol y medrau sy'n gysylltiedig â chydweithio yn effeithiol ag eraill o fewn sefyllfa grŵp a thorfol. Maent yn awyddus bob amser i gyfrannu ond nid yr un mor barod i wrando ac ystyried cyfraniad eraill o fewn y grŵp neu ddosbarth.

Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r disgyblion

70. Gydag ychydig eithriadau, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymagweddu'n briodol tuag at e'u cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o reolau'r ysgol ac yn ymateb yn dda i drefn yr ysgol o reoli ymddygiad. Ni welwyd yr un achos o fwlio yn yr ysgol.

71. Mae safonau presenoldeb yn foddhaol gyda chanran ychydig yn is na 94% dros y tri thymor cyn yr arolygiad. Daw'r holl ddisgyblion i'r ysgol yn brydlon ac nid oes amser addysgu'n cael ei golli'n ddianghenraid yn ystod y dydd.

72. Dengys y disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cyfle cyfartal ac o wahanol gredoau a diwylliannau mewn cymdeithas ac yn fyd eang.

73. Gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Cyfrannant yn rheolaidd at achosion da, ymatebant yn briodol o fewn sesiynau addoli-ar-y-cyd a chyfrannant tuag at weithgareddau yn y gymuned. Perfformiant i'r cyhoedd mewn cyngherddau, dathliadau a gwasanaethau.

74. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o rai agweddau o fyd gwaith ond nid ydynt ar hyn o bryd wedi meithrin yn ddigonol y medrau sy'n gysylltiedig â menter.

75. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o elfennau perthnasol i gynaliadwyedd yn un o ragoriaethau'r ysgol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

76. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion y dysgwyr a'r gofynion cwricwlwm neu gwrs

77. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
14%	79%	7%	0%	0%

78. Mae ansawdd yr addysgu yn well na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007, sef 95% o wersi yn radd 3 neu well a 65% yn radd 2 neu well.

79. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:

- cyflwyniadau bywiog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion;
- defnydd rhagorol o amrywiol strategaethau a thechnegau i gynnal diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion;
- defnydd effeithiol a bwriadus o strategaethau perthnasol i feithrin medrau cydweithio heb gyfyngu ar, na thanseilio annibyniaeth y disgyblion.
- datblygu medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn fwriadus;

80. Mae nodweddion da yr addysgu'n cynnwys:

- gwersi wedi'u cynllunio'n drylwyr a thasgau addas wedi cael eu gosod;
- cyflymder addas i'r gwersi a holi treiddgar o fewn y cyflwyniadau;
- defnydd effeithiol o glôd a chanmoliaeth;
- cynhaliaeth dda tra bo'r disgyblion ar dasg;
- defnydd effeithiol o adnoddau;
- defnydd o amrywiol strategaethau addysgu gan gynnwys addysgu dosbarth cyfan, gweithgareddau grŵp ac unigol;
- creu perthynas dda â'r disgyblion trwy greu awyrgylch hwyliog.

81. Yn y nifer fechan o wersi lle mae diffygion yn yr addysgu:

- nid oes rheolaeth digon cadarn ar y disgyblion;
- nid yw'r disgwyliadau yn ddigon uchel o ran cyflawniadau disgyblion ac nid yw'r tasgau a roddir iddynt yn ddigon ymestynnol a heriol.

Pa mor drylwyr yw'r asesu a sut y caiff ei ddefnyddio i gynllunio a gwella dysgu

82. Mae ansawdd yr asesu a'r cofnodi'n dda yn y Blynyddoedd Cynnar. O fewn cyfnod allweddol 1 a 2 mae nodweddion da'n gorbwyso rhai diffygion.

83. O fewn y Blynyddoedd Cynnar, asesir a chofnodir cynnydd y plant yn y chwe maes dysgu. Mae'r ysgol yn gweithredu'r Asesu Sylfaen yn gywir a gosodir targedau addas ar gyfer datblygiad pellach. Cedwir cofnodion manwl a gosodir targedau unigol.

84. Mae'r trefniadau ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dda. Darpara'r ysgol gynlluniau addysgol unigol a chedwir cofnodion manwl yn unol â gofynion y Côd Ymarfer.

85. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn asesu cynnydd y disgyblion yn y pynciau craidd yn rheolaidd ond nid yw'r drefn o gofnodi asesiadau o fewn y pynciau sylfaen wedi'i ffurfioli'n ddigonol. Mae hyn yn un o'r blaenoriaethau sy'n cael ei arenwi o fewn cynllun datblygu'r ysgol ar gyfer sylw buan.

86. Mae'r ysgol yn cadw portffolio unigol ar gyfer cofnodi asesiadau ac yn cadw samplau o waith wedi ei lefelu o fewn y meysydd craidd. Gosodir targedau unigol ar gyfer y disgyblion a chânt ran yn y broses asesu trwy'r drefn hunan asesu mewn rhai elfennau o'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau.

87. Nid yw ansawdd marcio gwaith disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Mewn rhai achosion yn unig y gwelwyd sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad ar sut i wella agweddau o'r gwaith.

88. Derbynia'r rhieni wahoddiad i'r ysgol ddwywaith y flwyddyn i drafod cynnydd ac i weld gwaith eu plant. Darperir adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd blwyddyn ysgol. Mae'r adroddiadau blynyddol yma o ansawdd da ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

89. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Yr oedd yr ysgol wedi gorbwysleisio rhai agweddau o'r ddarpariaeth wrth ddod i farn.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr

90. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys. Mae'n ymateb yn dda i anghenion dysgu yr holl ddisgyblion ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyfreithiol.

91. Mae'r modd y mae'r ddarpariaeth yn gynhwysol, yn gymdeithasol ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bob disgybl yn nodwedd rhagorol.

92. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Cynigir profiadau ysgogol a chyfoethog sydd wedi'u trefnu'n rhagorol.

93. At ei gilydd, mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn cynnig canllawiau clir er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r cynlluniau tymhorol a thymor byr a baratoir gan yr athrawon yn drylwyr ac yn ddefnyddiol wrth drefnu'r ddarpariaeth. Maent yn nodi'n eglur sut yr ymgorfforir addysgu'r medrau allweddol a'r medrau sylfaenol i'r gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

94. Cyfoethogir y ddarpariaeth gwricwlaidd gan amrediad da o weithgareddau allgyrsiol, ymweliadau addysgol a chyswllt ag ysgolion eraill. Cyfranna'r rhain yn dda tuag at gynnydd addysgol y disgyblion ac at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

95. Mae ansawdd sesiynau addoli ar y cyd yn dda ac yn cwrdd â'r gofynion statudol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu ac i fyfyrio yn ystod y sesiynau hyn yn hyrwyddo'u datblygiad ysbrydol yn dda.

96. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn dda. Mae'r disgyblion yn elwa o'r cyfleoedd a gânt ym mywyd bob dydd yr ysgol, mewn gwersi ar draws y cwricwlwm ac mewn gwersi penodol i drafod materion personol sydd o bwys iddynt. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo'n dda allu'r disgyblion i drafod yn rhwydd eu teimladau a materion moesol.

97. Mae'r cynllunio bwriadus a'r modd sensitif y mae'r ysgol yn hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion yn nodwedd rhagorol.

98. Mae ansawdd darpariaeth y Cwricwlwm Cymreig yn dda. Mae darpariaeth yr ysgol ar draws y cwricwlwm yn ogystal â thrwy weithgareddau allgyrsiol yn hyrwyddo'n gadarnhaol ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru a diwylliannau eraill.

99. Mae ansawdd y bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni'n dda. Mae'r rhieni yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn cynorthwyo'r staff mewn nifer o ffyrdd ymarferol. Mae'r Gymdeithas Rhieni/Athrawon yn codi symiau sylweddol o arian i gefnogi gwaith yr ysgol.

100. Sefydlodd yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gyda'r rhieni. Mae'r llawlyfr rhieni a'r Cytundeb Cartref-Ysgol yn ddogfennau defnyddiol, sy'n cwrdd â'r gofynion statudol. Anfonir llythyrau i'r rhieni yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau a threfniadau'r ysgol. Yn ddiweddar, sefydlwyd trefn o ddarparu gwybodaeth i'r rhieni am themâu dysgu'r dosbarthiadau ynghŷd â thargedau unigol eu plant. Mae nifer arwyddocaol o rieni yn mynegi eu dymuniad i dderbyn gwybodaeth ehangach am yr hyn sydd yn cael ei addysgu ac am gyflawniad eu plant.

101. Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn dda. Mae'r disgyblion yn cyfrannu i ddigwyddiadau a dathliadau lleol trwy gydol y flwyddyn a chefnoga'r gymuned weithgareddau'r ysgol yn dda.

102. Mae cysylltiadau da rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgolion uwchradd lleol. Mae'r trefniadau trosglwyddo a'r cynllun pontio pwrpasol yn hwyluso trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

103. Mae'r ysgol wedi defnyddio cysylltiadau gyda byd busnes yn dda wrth gynllunio i ymgorffori ymweliadau â fferm a busnesau lleol i'r rhaglen addysgu. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol i addysg gysylltiedig â gwaith.

104. Mae medrau datrys problemau a gwneud penderfyniadau'r disgyblion yn dda ac yn gosod seiliau ar gyfer datblygu medrau menter. Mae'r cyfleon i gynnal stondinau mewn ffeiriau ysgol yn rhoi peth cyfleon i roi'r medrau hyn ar waith ond nid yw hyn wedi datblygu'n llawn.

105. Mae'r modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol yn gweithredu camau ail gylchu yn ei bywyd bob dydd ac wedi cymryd rhan mewn prosiectau penodol ynglŷn ag arbed ynni a lleihau gwastraff. Mae'r cwricwlwm mewn daearyddiaeth a gwyddoniaeth yn rhoi sylw penodol i'r maes hwn a chyfoethogwyd profiadau'r disgyblion gan ymwelydd ddaeth i'r ysgol o Tanzania. Mae gan y disgyblion hŷn ymwybyddiaeth lawn o egwyddorion marchnata teg.

106. Mae gweithrediad y Cyngor Ysgol (‘Criw Cynfelyn’) yn fodd effeithiol o ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o brosesau democrataidd ac mae nifer o awgrymiadau’r Cyngor wedi’u gwireddu.

107. Mae’r ddarpariaeth addysgol yn gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod y disgyblion yn meddu ar y wybodaeth a’r medrau angenrheidiol ar gyfer dysgu gydol oes.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

108. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr

109. Mabwysiadodd yr ysgol bolisiau perthnasol a chyfredol i sicrhau bod trefniadau gofal yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae holl staff yr ysgol yn llawn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ofalgar iawn o'u disgyblion. Mae'r disgyblion yn troi atynt yn hyderus am gymorth.

110. Cefnoga'r rhieni waith ac ymdrechion yr ysgol. Gwahoddir y rhieni i mewn i drafod eu plant a gwerthfawrogir y polisi 'drws agored' sy'n bodoli o fewn yr ysgol. Sefydlwyd cymdeithas rieni/athrawon sy'n gyfrifol am drefnu digwyddiadau addysgol a chymdeithasol yn ogystal ag ymgyrchoedd codi arian ar gyfer pryniant adnoddau ychwanegol. Daw rhai o'r rhieni i'r ysgol i gynorthwyo ac i rannu arbenigedd yn rheolaidd mewn meysydd megis celf ac addysg gorfforol.

111. Un o ragoriaethau amlwg yr ysgol yw'r gynhaliaeth a'r gefnogaeth gynhwysfawr a rydd i'w disgyblion, waeth be fo'u cefndir na'u gallu. Mae'r ysgol yn cynnig awyrgylch gartrefol a hapus ble mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac ymgartrefa'r plant meithrin a hwyr ddyfodiaid yn ddidrafferth o fewn byr amser. Sefydlwyd trefn effeithiol o ymweliadau a chysylltiadau pontio cwricwlaidd â'r ysgolion uwchradd y trosglwydda disgyblion iddynt ar ddiwedd eu cyfnod cynradd.

112. Mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol, ac yn ystod amser cylch, gall y disgyblion drafod eu teimladau personol a materion yn ymwneud â'r amgylchfyd mewn ffordd onest ac aeddfed.

113. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro prydlondeb, presenoldeb ac ymddygiad ac mae strwythurau yn eu lle i wella a hyrwyddo presenoldeb y disgyblion. Tystia'r rhieni y gallant ddisgwyl galwad ffôn gan yr ysgol os nad ydynt wedi cysylltu i hysbysu o unrhyw absenoldeb.

114. Mabwysiadodd y llywodraethwyr ystod da o bolisiau iechyd a diogelwch perthnasol. Caiff offer trydanol ac offer diffodd tân eu harchwilio'n rheolaidd. Cynhelir ymarferion tân yn dymhorol ac mae gan aelodau staff gymwysterau cymorth cyntaf.

115. Mae gan reolwyr yr ysgol drefniadau effeithiol iawn i sicrhau diogelwch a lles personol y disgyblion yn eu gofal. Mae'r holl staff yn gyfarwydd â'r trefniadau hynny ac yn delio'n briodol a sensitif ag achosion o bryder. Dynodwyd aelod o staff yr ysgol a llywodraethwr i fod â chyfrifoldeb am y maes hwn.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

116. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Côd Ymarfer.

117. Mae dau ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, 11 ar gyfnod gweithredu ysgol ac wyth ar gyfnod gweithredu ysgol a mwy. Caiff anawsterau'r disgyblion eu hadnabod yn gynnar ac mae'r ysgol yn paratoi cynlluniau addysgol unigol ar eu cyfer sy'n cyfateb i'w hanghenion.

118. Darperir gwasanaeth athrawes anghenion addysgol arbennig am ddeuddydd yr wythnos ynghŷd â chymhorthydd am 15 awr yr wythnos. Mae'r gynhaliaeth ychwanegol yma a gynigir gan y cymhorthydd o fewn y dosbarthiadau yn sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm a chynnydd da yng ngwaith y disgyblion.

119. Cydymffurfia'r ysgol â'r drefn o ddarparu rhaglen addysgol ar gyfer disgyblion o dan ofal yr Awdurdod. Dynodwyd llywodraethwraig i fod â gofal am y maes ac sydd â chyswllt rheolaidd â chydgysylltydd anghenion arbennig yr ysgol.

120. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad yw ymddygiad gormesol yn amharu ar yr addysgu a lles disgyblion yn gyffredinol.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal

121. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn rhagorol. Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd uchel iawn i'r disgyblion, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig a ieithyddol.

122. Mae'r ysgol yn herio stereoteipio yn ôl rhyw mewn ffordd fwriadus

123. Drwy astudiaethau daearyddyddol, hanesyddol, astudio gwahanol grefyddau'r byd, drwy gasglu arian rheolaidd at achosion da a thrwy gysylltiadau ag ysgolion eraill megis Birmingham, daw'r disgyblion yn ymwybodol o ffyrdd o fyw a thraddodiadau gwahanol. Mae cyfle cyfartal ym mhob gweithgaredd ac ymdrecha'r ysgol yn galed i sicrhau nad oes neb dan unrhyw anfantais.

124. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol iawn o reoli ymddygiad gyda phwyslais arbennig ar y cadarnhaol. Defnyddir trefn o wobrwyo ymddygiad da yn gyson a rheolaidd. Tystia'r disgyblion a'r rhieni bod yr ysgol yn delio'n syth ag unrhyw ymddygiad gormesol pan y cyfyd.

125. Anodd fyddai sicrhau mynediad i'r safle mewn cadair olwyn ond pe bai angen byddai'r ysgol yn cyd drafod a chynllunio â'r awdurdod addysg lleol i wneud addasiadau priodol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

126. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel

127. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad cyson a chefnogol trwy gydlynu gwaith athrawon, staff cynhaliol a llywodraethwyr yn effeithiol. Mae pob aelod o'r staff yn rhannu'r un gwerthoedd ac amcanion ynghylch addysgu a dysgu, ymddygiad a chydberthnasau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n dda yng ngwaith ac yn ethos yr ysgol.

128. Mae'r staff addysgu'n gweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn ymgymryd â chyfran dda o gyfrifoldebau cwricwlaidd a rheolaethol a rhoddant flaenoriaeth i wella'r ddarpariaeth.

129. Mae'r modd y mae holl bolisiau'r ysgol, ynghyd â'i harferion dydd i ddydd, yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb gan gynnwys yr athrawon, y staff cynhaliol a'r disgyblion, yn nodwedd rhagorol.

130. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ei rhaglen waith ac y mae'n cydweithio'n effeithiol gyda gwahanol bartneriaid. Mae wedi ennill achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac wedi adnewyddu'r achrediad hwnnw ac wedi ennill achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl. Mae wedi cychwyn paratoi ar gyfer dyfodiad y cyfnod sylfaen ac wedi rhoi sylw i flaenoriaethau lleol ynglŷn â medrau meddwl, cynaliadwyedd a throsglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

131. Mae'r targedau a bennir ar gyfer disgyblion unigol yn rhoi nodau clir i'r athrawon, y rhieni a'r disgyblion eu hunain ynglŷn â pha agweddau sydd angen canolbwyntio arnynt. Defnyddia'r ysgol ganfyddiadau asesiadau, ynghŷd â'r arfer ddiweddar o dracio cynnydd unigolion, er mwyn bwydo trefn gosod targedau realistig, ar lefel ysgol yn dda.

132. Ar gyfer rheoli a gwella perfformiad staff, mae'r ysgol wedi sefydlu trefn effeithiol, sy'n adnabod a diwallu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon a'r staff cynhaliol yn dda. Mae'r trefniadau yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth addysgol a safonau cyflawniad disgyblion.

Pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau

133. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Maent yn cynorthwyo'r pennaeth i osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol ac maent yn effeithiol yn eu rôl fel cyfaill beirniadol. Mabwysiadwyd ystod dda o bolisïau perthnasol ond nid oes cofnod o ddyddiad eu mabwysiadu na rhaglen i'w hadolygu.

134. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu adnabyddiaeth dda o flaenoriaethau'r ysgol ac ymwelodd rhai â'r ysgol i dreulio amser yn y dosbarthiadau ac i drafod datblygiadau mewn meysydd cwricwlaidd gyda'r cydlynwyr pwnc. Mae hyn yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth y llywodraethwyr o ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

135. Mae barn y tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

Pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i arfarnu

136. Mae canfyddiadau'r ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y ddau gwestiwn allweddol lle mae'r farn yn wahanol, mae'r tîm arolygu o'r farn bod yr ysgol wedi gorbwysleisio rhai agweddau o'r ystyriaethau wrth ddod i farn ac nad oes rhagoriaeth yng nghyflawniad gwaith ysgrifenedig disgyblion cyfnod allweddol 2.

137. Mae trefniadau hunan-arfarnu'r ysgol yn tynnu ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol sy'n cynnwys ansawdd yr addysgu a chanlyniadau profion mewnol. Rhoddir sylw i gyflawniad y disgyblion mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn y meysydd craidd ac unrhyw dueddiadau arwyddocaol.

138. Lluniwyd rhaglen monitro dros naw thymor sy'n dangos sut y rhoddir sylw i ystod dda o agweddau i'w harfarnu dros y cyfnod hwnnw. Mae'r cydlynwyr cwricwlaidd yn monitro'u pynciau'n drefnus oddi mewn i'r amserlen honno gan adolygu cynlluniau gwaith, cynnal arolwg o adnoddau a thynnu ar arbenigedd tîm ymgynghorol yr awdurdod addysg lleol yn ôl yr angen. Nid yw rôl arfarnu'r cydlynwyr hyd yma wedi datblygu'n ddigonol i'w galluogi i arfarnu ansawdd yr addysgu a safonau gwaith y disgyblion.

139. Cynhwysir pob aelod o staff, ar lefel briodol, yn y drefn arfarnu. Mae'r holiaduron i gywain barn rhieni, a'r rhai ar gyfer y disgyblion, wedi'u coladu a'u dadansoddi er mwyn ystyried eu barn. Mae'r modd ymarferol y mae'r ysgol wedi mynd ati i geisio canfod barn y disgyblion, staff a rhieni ac wedi ystyried yn llawn y wybodaeth a gasglwyd yn nodwedd rhagorol.

Pa mor effeithiol yw'r broses o gynllunio er mwyn sicrhau gwelliant

140. Mae i strwythur yr adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad nodweddion rhagorol. Mae'n eglur, yn gryno, yn arfarnol ac yn nodi ffynonellau tystiolaeth. Yn ogystal, mae'n nodi anghenion cyffredinol sydd angen sylw'n flynyddol a rhai agweddau sydd angen eu harenwi fel blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

141. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol o ansawdd da. Mae'n ddogfen ddefnyddiol sy'n gosod cyfeiriad strategol i ddatblygiad yr ysgol. Mae'n rhestru'r blaenoriaethau sy'n codi o drefn arfarnu'r ysgol ac yn gosod amserlen tair blynedd i ymateb iddynt. Ar gyfer y materion sydd yn brif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol, nodir targedau a chamau gweithredu, cyfnod y gweithredu a meini prawf llwyddiant, enw unigolyn fel person cyfrifol, amcan o gost, amser a hyfforddiant a manylion pryd a chan bwy yr adolygir cynnydd.

142. At ei gilydd, mae'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol wrth weithredu ar y pum mater allweddol a nodwyd yn adroddiad 2000 yn dda. Cymerodd yr ysgol gamau penodol er mwyn ceisio cynnal safonau da a da iawn ond mae angen sylw pellach i weithredu dulliau arfarnu safonau pynciol er mwyn sicrhau mai dyma'r sefyllfa'n barhaus.

143. Mae'r trefniadau ar gyfer addysgu'r disgyblion mewn tri grŵp dosbarth yn y boreau ac mewn dau ddosbarth yn y prynhawniau yn ymateb yn ymarferol i anghenion y disgyblion trwy wneud defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

144. Mae'r trefniadau hyn, ynghyd â dyfodiad y caban ychwanegol hefyd yn caniatáu cyfleoedd chwarae dan amodau teg i'r plant dan bump oed sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Golyga hynny bod gofod yn neuadd yr ysgol ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol dan do.

145. Mae'r llawlyfr ar gyfer rhieni ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

146. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Digonolrwydd, addasrwydd a defnydd o staff, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd

147. Mae'r cyflenwad staff yn dda a chymwysterau athrawon yn addas ar gyfer addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r cymhorthydd a gyflogir yn rhannol ar gyfer cefnogi anghenion addysgol arbennig a chefnogi cyffredinol o fewn y dosbarthiadau yn gwneud ei gwaith yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda i'r gynhaliaeth a gaiff y disgyblion.

148. Mae'r cyflenwad adnoddau'n dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm gan gynnwys llyfrau ffuglen a ffeithiol yn y ddwy iaith. Mae yna gyflenwad digonol o gyfrifiaduron a gwneir defnydd effeithiol ohonynt ynghŷd â'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae'r holl adnoddau o ansawdd da a gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol ohonynt wrth gyflwyno gwaith.

149. Mae'r adeiladau'n ddigon mawr ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgol. Mae'r ystafelloedd dysgu'n ddigonol o ran maint ac wedi'u haddurno'n briodol. Mewn ymateb i'r arolygiad diwethaf, codwyd caban pwrpasol ar y safle ar gyfer addysgu'r Blynyddoedd Cynnar, sydd wedi rhyddhau'r neuadd at ddefnydd addysg gorfforol a gweithgareddau eraill priodol. Cedwir yr ysgol yn lân iawn a thaclus oddi mewn ac oddi allan. Fodd bynnag mae elfen o risg iechyd a diogelwch ynghlwm â'r grisiau i'r safle ynghŷd â'r defnydd o'r cae chwarae cyfagos.

Pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian

150. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol.

151. Mae'r modd y caiff y staff addysgu a chefnogi eu lleoli, eu rheoli a'u datblygu, yn dda. Mynycha'r staff ystod dda o hyfforddiant mewn swydd er mwyn diweddaru'u medrau. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn weithredol. Cydymffurfia'r ysgol â'r gofyn statudol i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu, er ei bod eto i wirio effaith y trefniadau newydd ar godi safonau.

152. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu'n rheolaidd y defnydd a wneir o adnoddau ac yn cyfeirio adnoddau ariannol yn unol â'r blaenoriaethau o fewn y cynllun datblygu ysgol.

153. Cynllunir y gwariant yn ofalus a defnyddir yr arian wrth gefn tuag at gynnal y lefel staffio presennol am y tair blynedd nesaf. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda ac mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion yn falch iawn o gasgliad yr adroddiad fod Ysgol Gynradd Llangynfelyn yn ysgol dda gydag elfennau rhagorol. Mae'r adroddiad yn cynnig darlun gwir a theg o'r ysgol ac o'r safonau a gyflawnir.

Rydym yn falch iawn o'n plant ac roeddem yn falch hefyd fod yr arolygwyr yn barnu fod y plant yn gadael yr ysgol gyda'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y medrau a'r agweddau angenrheidiol ar gyfer dysgu gydol oes. Rydym yn arbennig o falch o'r gydnabyddiaeth a roed i safonau dwyieithog y disgyblion, a gyfrifwyd yn rhagorol, yn arbennig felly o ystyried iaith cartref y plant.

Gwerthfawrogwn yn fawr ein rôl fel ysgol gymunedol a cheisiwn feithrin perthnasoedd agored, proffesiynol a chyfeillgar gyda rhieni, ysgolion a chyrff eraill. Rydym yn falch fod yr adroddiad yn cadarnhau fod y rhain yn dda.

Ymfalchïa'r ysgol yn ei hunan werthuso trylwyr a pharhaus. Ar y cyfan, roedd canfyddiadau yr arolygwyr yn cytuno gyda barn yr ysgol, a lle nad oedd hynny'n wir, cytunir gyda barn yr arolygwyr, a deallir y rhesymeg tu ôl i'r penderfyniadau. Golyga hyn y bydd sail gadarn i ddatblygu yr ysgol i'r dyfodol. Credwn fod hyn yn adlewyrchu ethos yr ysgol o geisio gwelliant parhaus ac o anelu at gyflawniadau uwch.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi gwaith proffesiynol, effeithiol ac ymroddgar yr Arolygydd Cofrestredig a'r aelod tîm. Roedd yn broses drylwyr a thrwyadl gydag adborth cadarnhaol sy'n cynnig eglurder ar gyfer datblygiad yr ysgol i'r dyfodol.

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn ymfalchïo yn yr adroddiad hwn. Dathlwn lwyddiant y tîm cyfan sydd ynghlwm wrth fywyd yr ysgol a chytunwn fod ansawdd gofal, cynhaliaeth a chyfarwyddyd yr ysgol i ddysgwyr yn nodwedd ragorol o'i darpariaeth.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynfelyn
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Taliesin, Machynlleth Powys
Cod post	SY20 8JG
Rhif ffôn	01970 832458

Pennaeth	Mr Prysor Mason Davies
Dyddiad penodi	Medi 2004
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mr Christopher Fuller
Arolygydd cofrestredig	Mr Owen Glyn Roberts
Dyddiadau'r arolygiad	12/06/06 – 14/06/06

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	3	8	6	5	11	4	8	7	52

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	1	3.4

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	15.3:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	3:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	17:1
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2005	64.9	90	94.8
Hydref 2005	84.8	84	95.6
Gwanwyn 2006	89.9	89	90.5

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	6%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005			Nifer y disgyblion yn B2		11		
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	100	0
		Cenedlaethol	.5	1.5	10	63.4	24.5
Cymraeg: llafaredd	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	100	0
		Cenedlaethol	.5	1.7	10.5	63.4	23.8
Cymraeg: darllen	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	45.45	54.55	0
		Cenedlaethol	.5	2.4	15.6	59.2	22.4
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	9.09	90.01	0
		Cenedlaethol	.5	3.1	18.6	66.2	11.6
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	72.73	27.27
		Cenedlaethol	.3	2.3	10.9	62.6	24
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	100	0
		Cenedlaethol	.3	1.6	9.5	65.2	23.4

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	100	Yng Nghymru	80.1

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005	Nifer y disgyblion yn B6	5
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir.		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl Asesiad Athro		yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	80	Yn yr ysgol	
Yng Nghymru	71.9	Yng Nghymru	

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygwyd yr ysgol gan dîm o dri arolygydd a oedd yn bresennol am 5 diwrnod arolygu.
- Cynhaliwyd cyfarfod cyn yr arolygiad gyda'r staff, rhieni a'r corf llywodraethol.
- Mynychodd 22 o rieni y cyfarfod cyn-arolygiad a dadansoddwyd 6 o holiaduron a gwblhawyd ganddynt.
- Dadansoddwyd y dogfennau a gyflwynwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad.
- Archwilwyd sampl o waith disgyblion ym mhob dosbarth, gwrandawyd arnynt yn darllen yn y ddwy iaith a chafwyd trafodaeth am e'u gwaith ac am fywyd yr ysgol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth, staff dysgu a'r staff cefnogi.
- Arsylwyd 14 o wersi neu rannau o sesiynau.
- Arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod amseroedd egwyl, yr awr ginio ac ar ddechrau a diwedd y cyfnodau ysgol.
- Mynychodd yr arolygwyr wasanaethau.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Owen Glyn Roberts Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb ac argymhellion Cwestiynau Allweddol 1, 2, 4 a 7 Atodiadau
Mr Trebor Roberts Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 3, 5 a 6
Mr William Owen Arolygydd Lleyg	Cyfraniad at gwestiynau 1, 3, 4, a 7
Mr Prysor Davies	Enwebai'r ysgol

Contractwr Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, y staff a'r disgyblion am eu cydweithrediad drwy gydol yr arolygiad.